Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 − diwygiadau i Adran 155 (2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| **DYDDIAD** | **18 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Yr Athro Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru** |

**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 − diwygiadau i Adran 155 (2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn diffinio term drwy gyfeirio at Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, yn hytrach na thrwy gyfeirio at y Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus. Mae'r diwygiad hwn yn un technegol ei natur ac mae'n ofynnol er mwyn i'r ddarpariaeth hon weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111176788/contents

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gyson ac yn ystyrlon. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi'i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r diwygiadau i Ddeddf Cydraddoldeb 2010